

Lleol, tecach, cryfach: busnesau cymdeithasol yn creu twf yng Nghymru



wavehill

social and economic research
ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Awduron: Eva Trier, Endaf Griffiths a
Ioan Teifi, Wavehill Ltd

Comisiynwyd a chyhoeddwyd gan Busnes
Cymdeithasol Cymru.

Ariennir Busnes Cymdeithasol Cymru gan
Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a
Llywodraeth Cymru. Fe'i darperir gan
Ganolfan Cydweithredol Cymru fel rhan o
wasanaeth Busnes Cymru.

Canolfan Cydweithredol Cymru
Y Borth
13 Ffordd Beddau
Caerffili
CF83 2AX

0300 111 5050
info@wales.coop
www.wales.coop

Diolchiadau

Hoffem ddiolch hefyd i'r holl unigolion a
roddodd o'u hamser i helpu gyda'r ymchwil a
gynhaliwyd ar gyfer yr astudiaeth hon, gan
gynnwys yr astudiaethau achos eu hunain a'r
rhanddeiliaid yn eu cymunedau ac ar lefel
Cymru gyfan a gyfrannodd eu safbwyntiau;
roedd eu cyfraniadau'n hollbwysig i ysgrifennu'r
adroddiad hwn.

Hoffem ddiolch yn arbennig i Meirion Thomas o
Penbryn Consulting a Keith Edwards o Keith
Edwards Ltd. a gynigiodd eu myfyrdodau ar dwf
busnesau cymdeithasol, gan ddefnyddio
busnesau'r astudiaethau achos fel enghreifftiau.

Ni fyddai'r adroddiad hwn wedi bod yn bosibl
heb yr holl gyfraniadau hyn.

Comisiynwyd a chyhoeddwyd gan Busnes
Cymdeithasol Cymru.

Ariennir Busnes Cymdeithasol Cymru gan Gronfa
Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth
Cymru. Fe'i darperir gan Ganolfan Cydweithredol
Cymru fel rhan o wasanaeth Busnes Cymru.

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	02
Cyd-destun	03
Tystiolaeth Astudiaethau Achos	03
Ffocws ar Dwf	04
Casgliadau	04
Astudiaethau Achos	
Antur Nantlle Cyf	06
Eglwys Gymunedol Tywi	08
Antur 'Stiniog	10
Bay Leisure Ltd.	12
Croesffyrdd Sir Gâr	14
Partneriaeth Fern	16
P.M.R. Ltd (Pembrokeshire Machinery Ring)	18
Theatr Mwldan	20
Cysylltwch â ni	22

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn ymchwilio i'r potensial sydd gan fusnesau cymdeithasol i greu swyddi a threchu tlodi mewn amodau economaidd anodd, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, ôl-ddiwydiannol, dinesig ac arfordirol. Mae'n adeiladu ar waith blaenorol a ddatblygwyd gan ymgyrch 'Swyddi Gwell yn Nes at Adref' TUC Cymru, Adroddiad Astudiaeth 'Deep Place' Crew, 'Toward a New Settlement', ac ymchwil a gynhaliwyd ledled y DU megis 'We Can Solve Poverty in the UK' Sefydliad Joseph Rowntree.

Mae'r adroddiad yn dangos enghreifftiau ymarferol o fusnesau cymdeithasol yn ysgogi economïau lleol, yn creu swyddi ac yn denu buddsoddiad preifat. Mae'n dangos enghreifftiau o arfer gorau ac enghreifftiau penodol o fusnesau cymdeithasol unigol yn ysgogi allbynnau economaidd.

Roedd yr ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar wyth astudiaeth achos o fusnesau cymdeithasol a oedd wedi profi twf neu'n cynllunio ar gyfer twf. Roedd pob un yn cynnig cipolwg gwerthfawr a oedd, law yn llaw â thystiolaeth a dadansoddiadau cyfredol, wedi caniatáu i ni ystyried sut gall twf busnesau cymdeithasol yng Nghymru gael ei ysgogi a'i gefnogi.

Cwmnïau'r wyth achos astudiaeth



Antur Nantlle Cyf
Caernarfon



Antur 'Stiniog
Blaenau Ffestiniog



Bay Leisure Ltd.
Abertawe



Croesffyrdd Sir Gâr
Llanelli

Cyd-destun

Mae'r cyd-destun polisi yng Nghymru'n cael ei fframio gan ymrwymiad ar y cyd i dwf cynhwysol.

Mae ysgogwyr megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu fframwaith i gyrff cyhoeddus weithio tuag at ddatblygiad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy i Gymru. Mae rôl busnesau cymdeithasol o ran sicrhau twf cynhwysol, er enghraifft, trwy gyfrannu mwy at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, a'r pwysigrwydd ar lefel leol ar gyfer adfywio economaidd, yn cael ei chydabod hefyd. Mae modd deall y cyfraniadau penodol y gall twf busnesau cymdeithasol eu gwneud at adfywio economaidd cymunedol yn nhermau tri phrif ddimensiwn, sef datblygu economaidd, swyddi a chyflogaeth a chydlyniant cymdeithasol.

Tystiolaeth Astudiaethau Achos

Mae'r wyth busnes yn yr astudiaethau achos a gyfwelwyd ar gyfer yr ymchwil hon yn amrywio o ran lleoliad, maint a gweithgarwch busnes, ac mae ganddynt drywydd twf a chyflawniadau gwahanol iawn.

Mae busnesau'r astudiaethau achos yn cynnig enghreifftiau o sut gall busnes cymdeithasol gyfrannu i ysgogi buddsoddiad, cloi gwariant i mewn a gwneud asedau cynhyrchiol yn rhan annatod o'r economi leol; maent yn dangos sut mae busnesau cymdeithasol yn

datblygu modelau busnes, yn cyfrannu at ddatblygiad sectorau ac yn hwyluso datblygiad gallu sefydliadol yn lleol.

Maent yn amlygu hefyd fod busnesau cymdeithasol yn gallu bod yn gyflogwyr allweddol yn eu hardal leol, gan gynnig cyflogaeth o safon a gwneud cyfraniad allweddol at ddatblygiad staff a datblygiad personol ar gyfer eu gweithwyr cyflogedig a'u gwirfoddolwyr, a'u helpu i ddechrau dringo'r ysgol tuag at gynhwysiant cymdeithasol.

Mae busnesau'r astudiaethau achos yn cyfrannu at greu llefydd deniadol a darparu gwasanaethau hanfodol, sy'n hollbwysig ar gyfer cydlyniant cymunedol.

Mae modelau busnes cymdeithasol arloesol yn nodi cyfleoedd newydd trwy ymateb i anghenion y gymuned yn hytrach na chael eu sbarduno'n bennaf gan elw. Trwy wneud hynny, mae busnesau'r astudiaethau achos wedi goresgyn methiannau'r farchnad sydd yn aml wedi atal adfywio economaidd yn eu cymunedau.

Mae'r dystiolaeth yn dangos sut gall busnesau cymdeithasol llwyddiannus gynhyrchu buddiannau sylweddol yn eu cymunedau. Mae hyn yn mynd ymhell y tu hwnt i'r elw ar fuddsoddiad ac yn cwmpasu effeithiau buddiol ehangach ar hyd y tri phrif ddimensiwn, sef datblygu economaidd, swyddi a chyflogaeth a chydlyniant cymdeithasol.



Partneriaeth Fern
Maerdy



**P.M.R. Ltd (Pembrokeshire
Machinery Ring)**
Hwlfordd



Theatr Mwlana
Aberteifi



Eglwys Gymunedol Tywi
Caerfyrddin

Crynodeb Gweithredol parhad

Mae'r dystiolaeth yn cadarnhau bod llawer o fusnesau'r astudiaethau achos wedi creu ysgogiad ar gyfer yr economi leol. Mae'r manteision yn gallu cynnwys:

- + Buddsoddiad yn y sector preifat a chreu swyddi;
- + Cadw neu ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau sylfaenol fforddiadwy y tu hwnt i'r hyn y bydd y farchnad prif ffrwd yn ei ddarparu;
- + Cynnig ffyrdd creadigol y gall aelodau difreintiedig o'r gymuned ymgysylltu o'r newydd ag amrywiaeth eang o weithgareddau cymdeithasol;
- + Cyflwyno ymdeimlad o le sy'n gallu arwain at fywiogrwydd newydd.

Ffocws ar Dwf

Mae pa lwybrau sydd ar gael i fusnesau cymdeithasol dyfu yn dibynnu ar y farchnad strategol a rhagolygon a gallu'r busnes. Mae heriau cyffredinol i dwf busnesau cymdeithasol yn bodoli mewn perthynas â gallu i dreiddio'r farchnad, datblygiad y farchnad, datblygiad cynhyrchion ac arallgyfeirio. Roedd busnesau'r astudiaethau achos yn tueddu i ystyried twf yn nhermau gallu cyflawni a chynnig mwy i'w cymunedau, ac maent wedi mabwysiadu safbwynt tymor hir o dwf.

Cyn belled â bod mecanweithiau cymorth priodol ar waith, gellir disgrifio'r chwe phrif faes, sydd â'r potensial i ysgogi a galluogi busnesau cymdeithasol i dyfu, fel a ganlyn:

- i) Mynediad at arbenigedd;
- ii) Galluogi datblygiad personol i staff a gwirfoddolwyr;
- iii) Sefydlu partneriaethau cadarn;
- iv) Cysoni amcanion masnachol a chymdeithasol;
- v) Mynediad at gyfalaf tymor estynedig;
- vi) Gallu cystadlu â darparwyr masnachol mewn perthynas â chaffael cyhoeddus.


Casgliadau

Nid oes model clir o lwyddiant ar gyfer busnesau cymdeithasol. Yn hytrach, mae llwyddiant yn dibynnu ar feithrin gallu lleol i lywio'r gofod rhwng darpariaeth gyhoeddus a phreifat.

Yn gryno, mae busnesau'r astudiaethau achos wedi:

- + Cael effaith uniongyrchol ar ddatblygiad economaidd yn eu cymunedau trwy gychwyn gweithgarwch economaidd newydd ac ysgogi newidiadau yn yr amodau economaidd ehangach;
- + Creu swyddi lleol gyda phwyslais sylweddol ar ddatblygiad personol a gyrfa eu staff ac aelodau'r gymuned;
- + Manteisio ar ddealltwriaeth fanwl o'r gwasanaethau a'r cyfleoedd sydd ar gael yn lleol a chyfrannu at gydlyniant cymunedol.

Mae yna gyfle heb ei ail i gefnogi busnesau cymdeithasol ymhellach fel y gallant wneud yn fawr o'u potensial ac fel bod modd iddynt gyfrannu'n fwy nag erioed at adfywiad cymunedol yng Nghymru.

A photograph of several students in a computer lab. They are wearing dark blue school uniforms with a small green logo on the chest. The students are focused on their work, with some looking at their computer screens and others at their keyboards. The background is a purple wall with a door and a window. The lighting is bright and even.

Mae pa lwybrau sydd ar gael i fusnesau cymdeithasol dyfu yn dibynnu ar y farchnad strategol a rhagolygon a gallu'r busnes.

01 | CRYNODEB O ASTUDIAETH ACHOS: Antur Nantlle

Lleoliad y busnes

Penygroes, Dyffryn Nantlle,
Caernarfon LL54 6LR

Prif weithgarwch busnes

Darparu eiddo busnes fforddiadwy i entrepreneuriaid a busnesau bach lleol; gwasanaethau a datblygu cymunedol; canolfan awyr agored.

Maint y busnes

4 o staff craidd, a 75 o gyflogeion a 23 gwirfoddolwr yn yr eiddo. Trosiant blyneddol o £100,000; gwarged blyneddol o tua 10-15%.

Cafodd Antur Nantlle Cyf ei sefydlu ym 1991 fel cwmni cyfyngedig trwy warant gan grŵp o bobl ifanc a oedd am wneud gwahaniaeth i Ddyffryn Nantlle a'r cyffiniau, a dathlodd yr antur ei ben-blwydd yn 25 oed yn 2016.

Cafodd y cwmni ei sefydlu i weithio tuag at adfywio economaidd, cymdeithasol a diwylliannol trwy annog entrepreneuriaeth, darparu hyfforddiant a datblygu prosiectau eraill yn yr ardal ôl-ddiwydiannol hon lle mae cyfleoedd cyflogaeth yn brin iawn.

Y man cychwyn oedd prynu Canolfan Fenter Dyffryn Nantlle, storfa wag a oedd yn eiddo i'r Cyngor. Aeth Antur Nantlle ati i droi'r adeilad yn gasgliad o unedau deori a datblygu busnes ac, ers hynny, mae wedi creu portffolio mawr o swyddfeydd, siopau ac unedau busnes yn ardal Dyffryn Nantlle. Mae'r rhain yn cael eu gosod i entrepreneuriaid a busnesau lleol bach yn bennaf, am rent isel. Ar hyn o bryd, mae Antur Nantlle yn berchen ar naw adeilad yn yr ardal, gyda thenantiaid busnes yn cynnwys dylunwyr graffig, manwerthwyr cydrannau ceir, y ganolfan alwadau fwyaf yng Nghymru ar gyfer cam-drin

domestig, siopau gemwaith, siopau celf a microfragdy.

Yn ogystal â'r busnes craidd o gynnig unedau busnes fforddiadwy i entrepreneuriaid lleol, mae Antur Nantlle wedi darparu prosiectau cyfalaf penodol gyda'r nod o achub gwasanaethau cymunedol, ynghyd ag ehangu'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael yn lleol. Er enghraifft, o ganlyniad i brynu adeilad ym 1997, llwyddwyd i gadw gwasanaeth llyfrgell y gymuned a chrëwyd lle ar gyfer Canolfan Dechnoleg lle byddai'r cwmni'n darparu hyfforddiant TGCh. Yn ogystal, prynodd Antur Nantlle adeilad gan fanc lleol yn 2002, a chafodd rhan ohono ei brydlesu'n ôl iddo i sicrhau y gallai'r gwasanaeth gael ei gadw. Yn olaf, yn ogystal â'r portffolio o eiddo sy'n cynnig eiddo busnes, mae Antur Nantlle hefyd yn rheoli Canolfan Awyr Agored hanesyddol yn Rhyd Ddu, sy'n eiddo i Gyngor Gwynedd.

Mae Antur Nantlle yn rheoli sawl prosiect bach arall hefyd, megis gwefan gymunedol o'r enw nantlle.com lle mae pobl lleol yn gallu rhannu straeon am hanes lleol. Mae pob prosiect yn cael ei reoli er lles y gymuned.

Yn ogystal â'r busnes craidd o gynnig unedau busnes fforddiadwy i entrepreneuriaid lleol, mae Antur Nantlle wedi darparu prosiectau cyfalaf penodol gyda'r nod o achub gwasanaethau cymunedol.



02 | CRYNODEB O ASTUDIAETH ACHOS: Eglwys Gymunedol Tywi

Lleoliad y busnes

Tre Ioan, Caerfyrddin
SA31 3BP

Prif weithgarwch busnes

Ale bowllo deg, siop aildddefnyddio
dodrefn, banc bwyd, siop elusen.

Maint y busnes

45 o staff; 125 o wirfoddolwyr.
Trosiant o £920,000 yn 2016.

Menter gymdeithasol a sefydlwyd fel cwmni cyfyngedig drwy warant ac elusen yw Eglwys Gymunedol Tywi (TCC).

Mae TCC yn darparu pob math o weithgareddau trwy Brosiect Xcel, gan gynnwys ale bowllo deg (Bowllo Xcel) a chaffi (Caffi Xcel), fel y prif weithgareddau masnachol sy'n targedu marchnad prif ffrwd, a llawer o weithgareddau sy'n diwallu anghenion penodol yn y gymuned. Mae'r rhain yn cynnwys menter fanwerthu aildddefnyddio dodrefn (Dodrefn Xcel), siop elusen (Siop Cymuned Xcel) a banc bwyd Caerfyrddin, partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Trussell. Yn ogystal, mae Eglwys Gymunedol Tywi'n cynnig amryw o ystafelloedd i'w llogi ac yn cynnal ardal chwarae i blant.

Dechreuodd yr ale bowllo deg yn 2013, gyda'r siop aildddefnyddio dodrefn yn agor flwyddyn yn ddiweddarach.

Cafodd y cwmni ei sefydlu gan Eglwys Gymunedol Tywi i ddarparu amryw o brosiectau cymunedol, gan gydnabod dymuniad yr eglwys i gyfrannu at waith adfywio cymunedol yn yr ardal. Roedd ymgynghoriad cyhoeddus wedi amlygu'r angen am gyfleuster hamdden, a gwelwyd bod ale bowllo deg yn ddewis poblogaidd gyda'r gymuned leol.

Gan adeiladu ar gysylltiadau presennol â'r adran adfywio yn yr Awdurdod Lleol, y gwaith o drosglwyddo asedau o ffatri wag gyda warws oedd y man cychwyn ar gyfer y gweithgareddau mentrau cymdeithasol sydd bellach yn cael eu darparu. Roedd hyn yn gyfle i uno dyheadau'r eglwys i ymestyn gwasanaethau i ailgylchu dodrefn ac i feysydd eraill, gan ddefnyddio'r refeniw a gynhyrchir gan yr ale bowllo deg i gymorthdalau'r gwasanaethau hyn.

Gan adeiladu ar gysylltiadau presennol â'r adran adfywio yn yr Awdurdod Lleol, y gwaith o drosglwyddo asedau o ffatri wag gyda warws oedd y man cychwyn ar gyfer y gweithgareddau mentrau cymdeithasol sydd bellach yn cael eu darparu.



03 | CRYNODEB O ASTUDIAETH ACHOS: Antur 'Stiniog

Lleoliad y busnes

Blaenau Ffestiniog
LL41 3NB

Prif weithgarwch busnes

Darparu llwybrau beicio mynydd a gwasanaeth cludo beiciau; canolfan gymunedol a thwrstiaeth yn cynnwys oriel.

Maint y busnes

15-20 o staff.

Trosiant o £380,000 yn 2016, hwyluswyd gan fuddsoddiad o dros £500,000 ers 2007.

Cafodd Antur Stiniog (AS) ei sefydlu yn 2007 gan y Swyddog Cymunedau yn Gyntaf ar y pryd. Roedd am weld plant sy'n siarad Cymraeg yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, gan ddefnyddio grant gan Gyngor Gwynedd, a sylweddolodd fod yna fwch yn y dd narpariaeth gweithgareddau awyr agored trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn dilyn cyfarfod cymunedol a chasglu 2,000 o lofnodion yn cefnogi'r fenter, sefydlwyd AS.

Menter gymdeithasol ddielw a chwmi cyfyngedig trwy warant yw Antur Stiniog. Mae'n defnyddio dulliau masnachol i gyflawni amcanion cymdeithasol. Diben y chwmi yw datblygu a chyflawni potensial y sector awyr agored yn ardal Ffestiniog mewn ffordd gynaliadwy ac arloesol er lles pobl leol a'r economi leol.

Nod Antur Stiniog yw cyflawni ei weledigaeth trwy'r gwasanaethau a ddarperir mewn dwy ganolfan –

canolfan llwybrau beicio i lawr ellydd a chanolfan yn y dref. Ailagorwyd y ganolfan groeso i dwristiaid, a oedd wedi cau yn 2010, yn y lleoliad yng nghanol y dref, ac mae'n cynnwys siop ac oriel.

Y llwybrau beicio i lawr ellydd, a agorwyd yn 2012 ac sy'n cael eu hystyried gan lawer o feicwyr medrus fel rhai o'r llwybrau gorau yn Ewrop, yw prif ased y chwmi. Mae'r ganolfan llwybrau beicio i lawr ellydd yn cynnwys siop sy'n gwerthu offer beicio a dillad brand y chwmi, caffi, ystafelloedd newid a chyfleusterau cawod a gwasanaeth golchi a thrwsio beiciau. Y gwasanaeth cludo'r beiciau i fyny'r ellydd, y mae pobl yn talu i'w ddefnyddio, yw'r ffynhonnell incwm allweddol.

Yn dilyn llwyddiant y llwybrau beicio, mae llawer o weithgareddau awyr agored wedi ymddangos yn yr ardal. Mae'r rhain wedi'u datblygu gan y sector preifat, ac maent yn cynnwys Zip World, Bounce Below, Zip Below, Go Below a Surf Snowdonia.

Antur 'Stiniog y pwrpas yw i ddatblygu a chyflawni potensial y sector awyr agored yn ardal Ffestiniog mewn ffordd gynaliadwy ac arloesol ar gyfer y budd-daliadau o'r trigolion a'r gymuned leol.



04 | CRYNODEB O ASTUDIAETH ACHOS: Bay Leisure Ltd

Lleoliad y busnes

Abertawe
SA1 3ST

Prif weithgarwch busnes

Cynnal prif ganolfan hamdden yr awdurdod lleol, lleoliadau campfeydd cost isel a Chanolfan Chwaraeon Traeth a Dŵr 360 ym Mae Abertawe.

Maint y busnes

150 o staff.
Trosiant o dros £3 miliwn y flwyddyn.

Cafodd Bay Leisure Limited (BLL) ei sefydlu yn 2007 fel Cwmni Cyfyngedig trwy Warant i ddarparu Canolfan Hamdden Abertawe, a oedd newydd gael ei hailadeiladu, ar ran Cyngor Dinas Abertawe.

Roedd arfarniad o opsiynau a gynhaliwyd gyda chymorth ymgynghorydd allanol ar y pryd wedi dod i'r casgliad mai cwmni hyd braich cwbl annibynnol newydd fyddai orau ar gyfer cyflawni'r cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y ganolfan hamdden. Felly, sefydlwyd BLL gyda chymorth gan y Cyngor, a chafodd tîm staff proffesiynol ei recriwtio a'i gontractio i ailagor a gweithredu'r ganolfan hamdden ar brydles o 10 mlynedd, gan gynnwys gwaith atgyweirio a chynnal a chadw o ddydd i ddydd.

Pan sylweddolodd BLL na allai'r busnes fod yn ddibynnol ar ffi reoli'r ganolfan hamdden yn unig, aeth ati i

sefydlu'r gadwyn Simply Gym. Roedd hyn yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth bod y farchnad mewn perthynas â champfeydd cost isel yn tyfu ac y byddai'n cyrraedd Abertawe yn hwyr neu'n hwyrach, gan effeithio ar gyfran BLL o'r farchnad. Felly, penderfynwyd lansio menter campfeydd cost isel ar wahân mewn lleoliadau ychwanegol cyn i gadwyni eraill symud i'r ardal.

Felly, sefydlwyd lleoliadau Simply Gym yn Llansamlet a Gorseinon. Yn ogystal, sefydlwyd Simply Play yng Ngorseinon fel cynnig pellach i'r gymuned.

Ochr yn ochr â sefydlu Simply Gym, datblygwyd Canolfan Chwaraeon Traeth a Dŵr 360 mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe. Mae'n rhan o brosiect Croeso Cymru gwerth miliynau o bunnoedd a lansiwyd ym mis Hydref 2012 gyda'r nod o wneud Bae Abertawe yn Ganolfan Rhagoriaeth Chwaraeon Dŵr.

Pan sylweddolodd BLL na allai'r busnes fod yn ddibynnol ar ffi reoli'r ganolfan hamdden yn unig, aeth ati i sefydlu'r gadwyn Simply Gym. Roedd hyn yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth bod y farchnad mewn perthynas â champfeydd cost isel yn tyfu ac y byddai'n cyrraedd Abertawe yn hwyr neu'n hwyrach.



05 | CRYNODEB O ASTUDIAETH ACHOS: Croesffyrdd Sir Gâr

Lleoliad y busnes

Llanelli
SA15 2TH

Prif weithgarwch busnes

Gofal amgen, gofal cartref a gwasanaeth gwybodaeth i ofalwyr.

Maint y busnes

123 o staff.
Trosiant o tua £2 miliwn yn 2016.

Yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth bod gofalwyr angen seibiant, cafodd Gofal Croesffyrdd ei sefydlu yn Rugby ym 1974 fel elusen i ddarparu cymorth i ofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal. Yn fuan wedi hynny, sefydlwyd Croesffyrdd yn Llanelli (un o'r cyntaf yng Nghymru) ym 1981 ac un arall yng Nghaerfyrddin ym 1993.

Yn 2007, ar ôl bod yn gweithredu fel sefydliadau ar wahân am oddeutu 25 mlynedd, unodd y ddau gynllun i greu Croesffyrdd Sir Gâr, gan gadw'r swyddfeydd yn y ddau leoliad. Cafwyd newid strwythurol arall ar lefel y DU yn 2012 pan unodd Gofal Croesffyrdd ac Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol i Ofalwyr i greu Ymddiriedolaeth y Gofalwyr.

Mae Croesffyrdd Sir Gâr yn elusen gofrestredig sy'n gwbl annibynnol ar sefydliad Ymddiriedolaeth y Gofalwyr sy'n gweithredu ledled y DU, ond yn gysylltiedig â nhw fel Partner Rhwydwaith. Yn gyfnewid am ffi gysylltu, mae'r sefydliad yn derbyn amryw o fuddion, gan gynnwys yswiriant, polisïau a gweithdrefnau, rhwydweithio, hyfforddiant a mwy.

Mae Croesffyrdd yn cynnig dau wasanaeth craidd; gofal cartref mewn lleoliad ar ffurf gwasanaeth gofal amgen i ofalwyr, a Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Sir Gâr, sef gwasanaeth gwybodaeth a chyingor i ofalwyr.

Croesffyrdd yw dewis cyntaf yr awdurdod lleol ar gyfer gofal amgen, ac mae'r gwasanaeth yn cynnwys cyflenwi dros ofalwyr di-dâl am rai oriau fel y gallant gael seibiant o'u rôl ofalu. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr yn cael ei ariannu ar y cyd gan Gyngor Sir Gâr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth cyfrinachol am ddim i ofalwyr. Mae'n cael ei ddarparu trwy gyfuniad o wasanaeth ffôn a rhaglen allgymorth ac mae'n darparu cymorth un-i-un trwy wybodaeth ac atgyfeirio i wasanaethau priodol. Mae gofalwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf hefyd trwy ffeithlenni a chylchlythyrau rheolaidd a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol, ac fe'u gwahoddir i ddigwyddiadau rheolaidd a ddarperir gan Croesffyrdd mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

Mae darparu'r cymorth cyfannol hwn, gan gwmpasu gwybodaeth reolaidd a seibiannau yn eu cyfrifoldebau gofalu, yn hollbwysig i helpu gofalwyr i reoli effaith gofalu ar eu bywydau.

Croesffyrdd yw dewis cyntaf yr awdurdod lleol ar gyfer gofal amgen, ac mae'r gwasanaeth yn cynnwys cyflenwi dros ofalwyr di-dâl am rai oriau fel y gallant gael seibiant o'u rôl ofalu.



06 | CRYNODEB O ASTUDIAETH ACHOS: Partneriaeth Fern

Lleoliad y busnes

Maerdy
CF43 4AR

Prif weithgarwch busnes

Gofal plant (yn cynnwys Dechrau'n Deg), prosiectau datblygu cymunedol, Llyfrgell Maerdy a hyb gymunedol; gwasanaethau dysgu a chymorth i deuluoedd.

Maint y busnes

22 o staff; 7 o wirfoddolwyr.
Disgwylyr trosiant o £450,000 yn y flwyddyn ariannol bresennol.

Cafodd Partneriaeth Fern ei sefydlu yn 2008 fel 'Friends of Ferndale' (FOF), Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gymunedol Glynrhedynog.

Yn unol ag uchelgais yr ysgol ei hun, a oedd wedi gwella ei pherfformiad yn ddramatig dros y pedair blynedd diwethaf, cafodd y bartneriaeth ei sefydlu gan yr ysgol i godi arian ar gyfer gweithgareddau na allent gael eu cefnogi trwy gyllideb graidd yr ysgol. Ers hynny, mae'r Ymddiriedolaeth wedi trosglwyddo o fod yn Elusen annibynnol (FOF) i fod yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant â Statws Elusennol (TFP).

Heddiw, mae model cyflawni Partneriaeth Fern yn ddeublyg, gan gynnwys darpariaeth gofal plant o safon a rhaglen ar gyfer datblygiad cymunedol.

Ers 2014, mae Partneriaeth Fern wedi darparu gwasanaeth gofal plant, yn bennaf ar gyfer ardal Rhondda Fach. Roedd yr ysgol am ddatblygu crèche ar y safle ac awgrymodd cynghorydd lleol y dylai Partneriaeth Fern (FOF ar y pryd) wneud cais am gyllid Dechrau'n Deg. Roedd ei chais yn llwyddiannus ac mae'r gwasanaeth wedi mynd o

nerth i nerth ers hynny. Dyma oedd y sbardun i dyfu'r busnes i'r hyn ydyw heddiw.

Datblygiad hollbwysig arall yn 2015 oedd cwblhau'r gwaith o drosglwyddo asedau'r llyfrgell leol a oedd wedi cau. Daeth hwn yn hyb ar gyfer darparu gwasanaethau datblygu cymunedol. Mae'r cyfleuster hyb cymunedol yn gyfle i aelodau'r gymuned gymdeithasu a datblygu sgiliau trwy'r gwasanaethau canlynol:

- + Clwb cyfrifiaduron
- + Clwb ar ôl ysgol
- + Dosbarth crefft i oedolion
- + Cymorth cyflogaeth un-i-un
- + Cyfleoedd hyfforddiant
- + Prosiect FitBit
- + Boreau coffi a sesiynau blas ar y Gymraeg
- + Ystafelloedd TG
- + Caffi dementia, unwaith y mis mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Alzheimer

Gyda chymorth hollbwysig Busnes Cymdeithasol Cymru, aeth Partneriaeth Fern ati i sefydlu ei hun fel cwmni cyfyngedig drwy warant â statws elusennol tua diwedd 2015, proses a gymerodd tua blwyddyn. Roedd yn golygu datblygu cynllun datblygu busnes gyda nodau tymor hir a gweledigaeth ar gyfer y sefydliad. Yn wahanol i'w hunanganfyddiad fel elusen fach heb ffocws amlwg ar ddatblygu cymunedol, erbyn hyn mae Partneriaeth Fern yn gweld ei hun fel busnes, gyda phopeth y mae'n ei wneud yn canolbwyntio ar fudd i'r gymuned leol.

Mae model cyflawni Partneriaeth Fern yn ddeublyg, gan gynnwys darpariaeth gofal plant o safon a rhaglen ar gyfer datblygiad cymunedol.



07 | CRYNODEB O ASTUDIAETH ACHOS: P.M.R. Ltd (Pembrokeshire Machinery Ring)

Lleoliad y busnes

Hwlfordd
SA61 1PX

Prif weithgarwch busnes

Cwmni cydweithredol amaethyddol sy'n darparu gwasanaethau masnachu i aelodau.

Maint y busnes

7 o staff; 1,100 o aelodau.
Masnachu nwyddau gwerth
£4-5 miliwn bob blwyddyn.

Cafodd P.M.R. (Pembrokeshire Machinery Ring) ei sefydlu ym 1991 yn dilyn cyfarfod lleol Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr lle roedd siaradwr gwadd o sefydliad tebyg wedi cyflwyno grŵp peiriannau yn seiliedig ar y model Ewropeaidd a oedd wedi deillio o sefydliadau tebyg yn Bafaria ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Mae'r cwmni cydweithredol hwn, a sefydlwyd fel Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus (Cymdeithas Budd Cymunedol), yn cael ei reoli er lles yr aelodau. Mae'n sefydliad llawr gwlad sy'n dod â ffermwyr o'r un anian ynghyd.

Ar ôl sefydlu'r busnes, cyflogwyd un aelod o staff a aeth ati i sbarduno datblygiad y cwmni. O ganlyniad, datblygodd P.M.R. bresenoldeb cryf iawn ledled Sir Benfro, yna yn Sir Gâr ac yna, gyda chymorth Awdurdod Datblygu Cymru ar y pryd, ledled y De-orllewin.

I gychwyn, rhannu peiriannau oedd y nod. Byddai P.M.R. yn rhestru adnoddau ac, mewn ymateb i ymholiad, yn rhoi ffermwyr mewn cysylltiad â'i gilydd ac yn trafod yr holl anfonebau a swyddogaethau gweinyddu eraill ar eu rhan. Ers hynny, mae masnachu nwyddau a swmp-brynu wedi dod yn wasanaethau pwysig a gynigir gan P.M.R.

Mae'r cwmni cydweithredol hwn, a sefydlwyd fel Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus (Cymdeithas Budd Cymunedol), yn cael ei reoli er lles yr aelodau. Mae'n sefydliad llawr gwlad sy'n dod â ffermwyr o'r un anian ynghyd.



08 | CRYNODEB O ASTUDIAETH ACHOS: Theatr Mwldan

Lleoliad y busnes

Aberteifi
SA43 1JY

Prif weithgarwch busnes

Canolfan diwylliant a'r celfyddydau, rhaglen deithiol ryngwladol, canolfan busnes creadigol.

Maint y busnes

24 o staff; 22 o staff mewn cwmnïau tenant a letyir yn y ganolfan fusnes gysylltiedig. Trosiant o ychydig o dan £1.5 miliwn yn 2016.

Aeth Theatr Aberteifi, cwmni drama amatur lleol, ati i sefydlu Theatr Mwldan yn y 1980au. Llwyddodd y cwmni i gaffael hen ladd-dy gwag y dref gan yr awdurdod lleol, gan ddechrau prosiect i'w droi'n theatr gymunedol gyda chefnogaeth Manpower a mentrau cymunedol gwirfoddol eraill.

Bu'r cwmni'n rheoli'r theatr am oddeutu chwe blynedd a, gyda chymorth grantiau bach ychwanegol, aeth ati i ddatblygu adeilad rhaglen celfyddydau proffesiynol o'r ganolfan perfformiad cymunedol. Yna, dechreuodd Cymdeithas Ffilm Theatr Mwldan drefnu i ddangos ffilmiau yn y theatr ddiwedd y 1980au.

Cafodd Theatr Mwldan ei sefydlu fel cwmni cyfyngedig drwy warant ac elusen gofrestrdig ym 1992, gyda thri aelod o staff i gychwyn. Yna, datblygwyd rhaglen weithgareddau

ehangach cyn rhoi prosiect ehangu staff ar waith ym 1998/99, gyda phrosiect cyfalaf mawr gwerth £7 miliwn yn 2002-04; arweiniodd y prosiect hwn at weddnewid y safle yn Aberteifi i gynnwys dau awditoriwm (gyda 250 a 146 o seddi), stiwdio ymarfer, gofod arddangos celfyddydau gweledol a gwell cyfleusterau blaen y tŷ, arlwygo a gweinyddol, gyda thrydedd sgrin yn cael ei hychwanegu yn 2011/12.

Yn 2005, cafodd Theatr Mwldan ei chydnabod fel Canolfan Celfyddydau Perfformio Ranbarthol gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Roedd y rôl strategol newydd hon yn cynnwys cylch gwaith ar gyfer cynhyrchu a chyflwyno perfformiadau, gan arbenigo mewn cerddoriaeth byd a thraddodiadol, drama a sioeau cerdd, a chyd-hyrwyddo a chyd-gynhyrchu teithiau o arbenigedd artistig.

Yn 2005, cafodd Theatr Mwldan ei chydnabod fel Canolfan Celfyddydau Perfformio Ranbarthol gan Gyngor Celfyddydau Cymru.



Cysylltwch â ni

Mae cyfleoedd sylweddol ar gael i roi rhagor o gymorth i fusnesau cymdeithasol wireddu eu potensial a'u galluogi i wneud cyfraniad hyd yn oed yn fwy at adfywio cymunedol yng Nghymru. Mae'r dulliau ysgogi allweddol yn cynnwys integreiddio agendâu polisi lefel uchel yn fwy effeithiol â phenderfyniadau wrth ryngweithio'n uniongyrchol â busnesau cymdeithasol ar lawr gwlad. Hefyd, mae'n rhaid parhau i ganolbwyntio ar feithrin capasiti busnesau cymdeithasol sydd eisoes yn bodoli yn ogystal â chefnogi mentrau cymunedol entrepreneuriaidd.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Canolfan Cydweithredol Cymru

Y Borth
13 Ffordd Beddau
Caerffili
CF83 2AX

0300 111 5050
info@wales.coop
www.wales.coop

Mae cyfleoedd sylweddol ar gael i roi rhagor o gymorth i fusnesau cymdeithasol wireddu eu potensial a'u galluogi i wneud cyfraniad hyd yn oed yn fwy at adfywio cymunedol yng Nghymru.